Amcan Lles 5: Prifddinas sy'n gweithio dros Gymru

Asesiad Caerdydd o Les Lleol

Ds: Cynhaliwyd yr asesiad hwn drwy ddefnyddio'r data mwyaf diweddar sydd ar gael. Mewn llawer o achosion ni fydd hyn yn cipio effaith lawn pandemig byd-eang Covid-19. Cafodd gwaith i gasglu rhai setiau data ei atal yn sgil y pandemig hefyd.

Dangosyddion

1. Gwerth Ychwanegol Gros fesul pen yng Nghaerdydd
2. Incwm Gwario Aelwydydd Gros fesul pen
3. Canran y boblogaeth 16-64 oed sy'n gymwys hyd at NVQ4+ (lefel gradd neu gyfwerth)
4. Cyfradd diweithdra'r boblogaeth economaidd-weithgar 16+ oed
    a) Cyfradd y nifer sy'n hawlio budd-daliadau/Pumed amddifadedd
    b) Y nifer sy'n hawlio budd-daliadau / rhyw a ward
    c) Ethnigrwydd
5. Canran y swyddi i gyflogeion lle mae'r tâl fesul awr yn is na'r cyflog byw
6. Canolrif enillion wythnosol gros gweithwyr amser llawn
    a) Trosolwg
    b) Rhywedd
7. Canran y bobl sy'n byw mewn cartrefi lle ceir amddifadedd materol
8. Canran y boblogaeth 16-64 oed heb unrhyw gymwysterau
9. Dysgwyr sy'n gadael yr ysgol ym Mlwyddyn 11 a Blwyddyn 13 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
    a) Blwyddyn 11
    b) Blwyddyn 13
10. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod gan Gaerdydd economi ffyniannus a llewyrchus?
11. Busnesau Gweithredol fesul 10,000 o'r Boblogaeth
12. Busnesau Newydd a Gychwynnwyd fesul 10,000 o'r Boblogaeth
    a) Trosolwg
    b) Parhad
    c) Busnesau newydd net a gafodd eu creu
13. Nifer yr ymwelwyr â Chaerdydd a'r gwariant/effaith economaidd fesul preswylydd
14. Pa mor fodlon ydych chi ag ansawdd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd?
    a) Trosolwg
    b) Yn ôl Pumed amddifadedd
15. Canran y bobl sy'n cymryd rhan mewn, neu'n mynd i weithgareddau celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth o leiaf deirgwaith y flwyddyn
16. Cyllid a ddyfarnwyd i sefydliadau ac unigolion yn y celfyddydau (2020-2021)
17. Cyllid Brys Covid-19 a Thueddiadau Presenoldeb y Celfyddydau
18. Canran y bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon dair gwaith neu fwy yr wythnos?
19. Cyfanswm y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd
20. Canran y bobl 16+ oed sy'n gallu siarad Cymraeg
21. Canran y bobl sy'n siarad Cymraeg yn ddyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau yn Gymraeg
22. Addysg Gymraeg yng Nghaerdydd
23. Nifer y bobl sy'n eu hystyried eu hunain yn Gymry

1. Gwerth Ychwanegol Gros fesul pen yng Nghaerdydd

Pwyntiau Allweddol:

- Yn 2019, £32,333 oedd y Gwerth Ychwanegol Gros fesul pen yng Nghaerdydd, sydd yn llawer uwch na chyfartaledd Cymru a mymryn yn uwch na chyfartaledd y DU.
- Fodd bynnag, mae'r bwlch mawr rhwng GYG fesul pen Caerdydd a rhai Dinasoedd Craidd, sef Manceinion a Chaeredin, yn dangos bod angen i Gaerdydd wneud cynnydd yn y maes hwn.
- Rhwng 2015 a 2019, cafwyd cynnydd o oddeutu 13% mewn GYG yng Nghaerdydd, ac arhosodd yn gyson yn uwch na chyfartaleddau Cymru a'r DU.





Ffynhonnell: ONS

2. Incwm Gwario Aelwydydd Gros fesul pen

Pwyntiau Allweddol:

- Yn 2019, incwm gwario gros aelwydydd yng Nghaerdydd oedd £17,431, sydd bron yn hafal i gyfartaledd Cymru, ond yn sylweddol is na chyfartaledd y DU (£21,433), a'r lefel a welir mewn rhai Dinasoedd Craidd, sef Bryste a Chaeredin.
- Rhwng 2016 a 2019, cododd incwm gwario gros aelwydydd yng Nghaerdydd 9.6%, sydd fymryn yn uwch na'r cynnydd o 8.6% yng nghyfartaledd y DU dros yr un cyfnod.
- Dros yr 20 mlynedd diwethaf, mae incwm gwario yng Nghaerdydd wedi tueddu i gynyddu ar y cyfan, ond mae'r cynnydd wedi arafu ychydig ers 2008-09, gan gyd-daro â'r argyfwng ariannol byd-eang.





Ffynhonnell: ONS

3. Canran y boblogaeth 16-64 oed sy'n gymwys hyd at NVQ4+ (lefel gradd neu gyfwerth)

Pwyntiau Allweddol:

- Yn 2020, roedd canran y boblogaeth o oedolion yng Nghaerdydd a oedd wedi cymhwyso hyd at lefel gradd neu gyfwerth ychydig o dan 50%, a oedd yn uwch na chyfartaleddau Cymru a'r DU yn braf, ac yn uwch na'r rhan fwyaf o Ddinasoedd Craidd eraill.
- Rhwng 2016 a 2020, roedd tuedd gyffredinol i'r ganran hon gynyddu yng Nghaerdydd.
- Er 2004, mae canran y bobl sydd wedi cymhwyso hyd at lefel gradd yng Nghaerdydd wedi bod yn gyson uwch na chyfartaleddau Cymru a'r DU.







Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

4. Cyfradd diweithdra'r boblogaeth economaidd-weithgar 16+ oed

Pwyntiau Allweddol:

- Y gyfradd ddiweithdra yng Nghaerdydd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2021 oedd y drydedd isaf o blith Dinasoedd Craidd y DU (5.1%). Fodd bynnag, roedd y gyfradd yn uwch na chyfartaledd Cymru ac yn ail i Gasnewydd yn unig. Yr oedd hefyd ychydig yn uwch na chyfartaledd Prydain.
- Ers cyrraedd uchafbwynt o 9.9% ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2013, mae diweithdra yng Nghaerdydd wedi tueddu i ostwng, gyda'r cynnydd yn 2021 fwy na thebyg yn gysylltiedig ag effaith Covid-19.
- Ers yr asesiad lles diwethaf, mae diweithdra wedi gostwng o 6.0% (y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2016) i 5.1%.





Ffynhonnell: Diweithdra yn Seiliedig ar Fodel, Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

4a. Cyfradd diweithdra'r boblogaeth economaidd-weithgar 16+ oed (cyfradd y nifer sy'n hawlio budd-daliadau/ pumed amddifadedd)

Pwyntiau Allweddol:

- Yn sgil effaith y pandemig ar ddiweithdra, dyblodd cyfradd y nifer a oedd yn hawlio budd-daliadau yng Nghaerdydd yn nhymor y gwanwyn 2020, er bod y ffigur hwnnw wedi tueddu i ostwng ers mis Mai 2021, ac erbyn hyn yn cyd-fynd â chyfartaledd y DU. Serch hynny, mae'n dal i fod yn uwch na'r lefel a gafwyd cyn y pandemig.
- Nid yw diweithdra yn cael ei brofi'n wastad ar draws y ddinas, gyda chyfradd nifer yr hawlwyr 7.8 pwynt canran yn uwch ymhlith pumed mwyaf amddifadus y boblogaeth o gymharu â'r pumed lleiaf amddifadus.





Ffynhonnell: Cyfrif Hawlwyr / Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, Amcangyfrifon Poblogaeth Llywodraeth Cymru / Canol 2020, ONS

4b. Cyfradd diweithdra'r boblogaeth economaidd-weithgar 16+ (nifer sy'n hawlio budd-daliadau/rhyw a ward)

Pwyntiau Allweddol:

- Mae cyfradd cyfrif hawlwyr y dynion yng Nghaerdydd wedi bod yn gyson ac yn sylweddol uwch na'r gyfradd ar gyfer menywod dros y degawd diwethaf, er i'r bwlch hwn ddechrau lleihau o 2012 hyd ddechrau'r pandemig, sydd i gyfrif am y cynnydd sydyn a welwyd yn fuan yn 2020.
- Wrth gynnal yr asesiad lles diwethaf ym mis Gorffennaf 2016, roedd 1.4 pwynt canran rhwng y gyfradd i ddynion a'r gyfradd i fenywod (3.0% v 1.6%);yn y data diweddaraf o fis Hydref 2021, datgelir bod y bwlch hwn bellach yn 2.1 pwynt canran (5.8% v 3.7%).
- Ym mis Hydref 2021, mae cyfradd nifer yr hawlwyr yn Adamsdown, y ward yng Nghaerdydd â gyfradd uchaf, tua 7 gwaith yn uwch nag yn Radur, y ward â'r gyfradd isaf (9.2% v 1.3%), gan ddatgelu problem barhaus yn gysylltiedig ag anghydraddoldeb gofodol yng Nghaerdydd.





Ffynhonnell: Nifer sy'n Hawlio Budd-daliadau - ONS

4c. Cyfradd diweithdra'r boblogaeth economaidd-weithgar 16+ (ethnigrwydd)

Pwyntiau Allweddol:

- Mae'r gwahaniaeth rhwng cyfradd diweithdra preswylwyr lleiafrifol ethnig a chyfradd diweithdra preswylwyr gwyn wedi amrywio dros amser, ond yn roedd y cyfraddau'n debyg iawn yn y flwyddyn Gorffennaf 2020 - Mehefin 2021. [DS. Mae cyfraddau lleiafrifoedd ethnig yn annibynadwy am ran helaeth o'r cyfnod gan fod y samplau'n fach, felly dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r ffigurau hyn]
- Ceir gwahaniaeth mawr rhwng cyfraddau gweithgarwch economaidd preswylwyr lleiafrifol ethnig Caerdydd a'i phreswylwyr gwyn, gyda'r boblogaeth leiafrifol ethnig yn llawer mwy tebygol o fod yn anweithgar na'r boblogaeth wyn. [DS. Ceir cyfyngau hyder mawr i'r ffigurau ar gyfer lleiafrifoedd ethnig, ond mae'r gwahaniaeth rhwng y cyfraddau'n sylweddol dros fwyafrif y cyfnod dan sylw]





Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

5. Canran y swyddi i gyflogeion lle mae'r tâl fesul awr yn is na'r cyflog byw

Pwyntiau Allweddol:

- Dengys canlyniadau dros dro ar gyfer 2021 fod 11.6% o swyddi cyflogedig â chyflog fesul awr sy'n is na'r cyflog byw.
- Mae'r ganran hon yn dal yn sylweddol is na chyfartaleddau Cymru a'r DU, yn ogystal â mwyafrif y Dinasoedd Craidd eraill, a'r holl awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.
- Rhwng 2020 a 2021, cafwyd gostyngiad o 2.7 pwynt canran yng nghanran y swyddi cyflogedig â chyflog fesul awr sy'n is na'r cyflog byw (14.3% vs 11.6%)
- Mae'r data hyn yn adlewyrchu llwyddiant ymgyrch Cyflog Byw Caerdydd.

DS: Data yn seiliedig ar nifer a chyfran y cyflogeion yn y DU sy'n ennill llai na'r cyflog byw a ddiffinnir gan y Living Wage Foundation





Ffynhonnell: ONS (Data a geisiwyd gan y defnyddiwr)

6a. Canolrif enillion wythnosol gros gweithwyr amser llawn

Pwyntiau Allweddol:

- Yn 2021, canolrif enillion wythnosol gros gweithwyr amser llawn yng Nghaerdydd oedd £586.70, y 3ydd uchaf o blith Awdurdodau Lleol Cymru, ond yn is na chyfartaledd y DU a chyfartaledd bron holl Ddinasoedd Craidd eraill y DU.
- Rhwng 2016 a 2021, cafwyd cynnydd o 10% yng nghanolrif enillion wythnosol gros Caerdydd, sy'n is na'r cyfraddau cynnydd a welwyd ar draws Cymru 14% a'r DU (13%).





Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (Dadansoddiad o'r Gweithle)
DS. Ffigurau dros dro yw ffigurau 2021

6b. Canolrif enillion wythnosol gros gweithwyr amser llawn (yn ôl rhyw)

Pwyntiau Allweddol:

- Yn 2021, roedd canolrif enillion wythnosol gros menywod sy'n gweithio yng Nghaerdydd yn 87.5% o ganolrif y dynion, o gymharu ag 83.7% yn 2016.
- Er bod y bwlch yn parhau i fod yn broblem fawr, caewyd y bwlch hwnnw 3.8 pwynt canran rhwng 2016 a 2021.
- Canlyniad gostyngiad yn enillion y dynion yn hytrach na chynnydd sylweddol yn enillion y menywod oedd y gostyngiad hwn yn y bwlch rhwng y ddau ryw.



Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (Dadansoddiad o'r Gweithle)
DS. Ffigurau dros dro yw ffigurau 2021

7. Canran y bobl sy'n byw mewn cartrefi lle ceir amddifadedd materol

Pwyntiau Allweddol:

- Mae 13% o aelwydydd yng Nghaerdydd yn byw mewn amddifadedd materol, sy'n hafal i gyfartaledd Cymru.
- Er gwaethaf cynnydd i 19% yn 2017/18, mae'r ffigur hwn wedi gostwng o 16% i 13% rhwng 2016-17 a 2019-20.
- *DS. Nid yw ffigurau 2020-21 ar gael oherwydd effaith y pandemig ar yr Arolwg Cenedlaethol*





Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru

8. Canran y boblogaeth 16-64 oed heb unrhyw gymwysterau

Pwyntiau Allweddol:

- Yn 2020, roedd ychydig dros 5% o oedolion yng Nghaerdydd heb unrhyw gymwysterau, a oedd yn is na chyfartaleddau Cymru a'r DU, yn ogystal â'r cyfraddau a welwyd yn y rhan fwyaf o'r Dinasoedd Craidd eraill.
- Gwelwyd tuedd ar i lawr yng Nghaerdydd ers 2009. Mae'r ganran wedi gostwng o 12.9% yn 2009 i 5.3% yn 2020.





Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

9a. Rhai sy'n gadael yr ysgol ym Mlwyddyn 11 y gwyddys nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET)

Pwyntiau Allweddol:

- Nid oes modd cymharu data â blynyddoedd blaenorol mwyach.
- Mae canran y rhai sy'n gadael yr ysgol ym Mlwyddyn 11 y gwyddys eu bod yn NEET yng Nghaerdydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru.



Ffynhonnell: Gyrfa Cymru

9b. Dysgwyr sy'n gadael yr ysgol ym Mlwyddyn 13 y gwyddys nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET)

Pwyntiau Allweddol:

- Nid oes modd cymharu data 2020 â blynyddoedd blaenorol mwyach.
- Mae canran y rhai sy'n gadael yr ysgol ym mlwyddyn 13 y gwyddys eu bod yn NEET yn is na chyfartaledd Cymru, a'r ganran honno yw'r 4edd ganran isaf o blith Awdurdodau Lleol Cymru.
- Yn 2021, mae Cyfradd y Nifer sy'n Hawlio Budd-daliadau (18-24 oed) yn y cymunedau mwyaf amddifadus dros bum gwaith yn uwch nag yn y cymunedau lleiaf amddifadus.

Blwyddyn 13: Canran NEET, 2020



Ffynhonnell: Gyrfa Cymru

Canran y Rhai sy'n Hawlio Budd-dal Diweithdra (18-24 oed) yng Nghaerdydd yn ôl Pumed Amddifadedd, Hydref 2021



Ffynhonnell: NOMIS - Swyddfa Ystadegau Gwladol

10. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod gan Gaerdydd economi ffyniannus a llewyrchus?

Pwyntiau Allweddol:

- Yn 2020, roedd ychydig dros 50% o'r preswylwyr yn yr arolwg yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod gan Gaerdydd economi ffyniannus a llewyrchus, sy'n ostyngiad sylweddol o oddeutu 15 pwynt canran o gymharu â 2016.
- Pumed mwyaf amddifadus y boblogaeth sydd yn lleiaf tueddol o gytuno bod gan Gaerdydd economi ffyniannus a llewyrchus, ac mae bwlch sylweddol o bron i 10 pwynt canran rhwng y pumedau mwyaf a lleiaf amddifadus.

I ba Raddau yr Ydych yn Cytuno neu'n Anghytuno â'r Gosodiad hwn: Mae gan Gaerdydd Economi Llwyddiannus a Ffyniannus?



I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad hwn: Mae gan Gaerdydd economi sy'n ffynnu ac yn llewyrchu? 2020 Pumed Amddifadedd



Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd, Cyngor Caerdydd

11. Busnesau Gweithredol fesul 10,000 o'r Boblogaeth

Pwyntiau Allweddol:

- Yn 2020, roedd gan Gaerdydd 362.4 o fusnesau gweithredol fesul 10,000 o'r boblogaeth, neu gyfanswm o 13,380 o fusnesau.
- Mae Caerdydd yn uwch na chyfartaledd Cymru ond yn llawer is na chyfartaledd y DU a Dinasoedd Craidd sy'n gystadleuwyr allweddol, sef Bryste a Manceinion.
- Rhwng 2015 a 2020, arhosodd y gyfradd hon yn weddol sefydlog, gyda chynnydd bach o'r naill flwyddyn i'r nesaf dros y rhan fwyaf o'r cyfnod.





Ffynhonnell: Demograffeg Busnesau, ONS/Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn

12a. Busnesau Newydd a Gychwynnwyd fesul 10,000 o'r Boblogaeth

Pwyntiau Allweddol:

- Yn 2020, crëwyd 46.0 o fusnesau newydd am bob 10,000 o'r boblogaeth yng Nghaerdydd, sef 1,700 o fusnesau.
- Mae'r gyfradd hon yn uwch na chyfartaledd Cymru, ond yn llawer is na chyfartaledd y DU ac yn y safle canol o blith y Dinasoedd Craidd; mae maint y bwlch rhwng Caerdydd a Bryste, Birmingham a Manceinion yn dangos bod llawer o le i wella yn y maes hwn.
- Rhwng 2015 a 2018, roedd cyfradd y busnesau newydd yng Nghaerdydd yn tueddu i ostwng. Cafwyd cynnydd o oddeutu 10% i'r ffigur o 2018 i 2019 (1,580 vs 1,735), ond gostyngodd hyn eto yn 2020 ac, ar ddiwedd y cyfnod, roedd y gyfradd yn is na'r hyn a welwyd wrth gynnal yr Asesiad Lles diwethaf (yn 2016).





Ffynhonnell: Demograffeg Busnes, ONS/Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn

12b. Busnesau Newydd a Gychwynnwyd fesul 10,000 o'r Boblogaeth (parhad)

Pwyntiau Allweddol:.

- Yn 2020, roedd Caerdydd yn y trydydd safle yng Nghymru o ran y busnesau newydd a grëwyd yng nghyd-destun y boblogaeth, gan orffen y tu ôl i Gasnewydd a Sir y Fflint.



Ffynhonnell: Demograffeg Busnes, ONS/Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn

12c. Busnesau Newydd a Gychwynnwyd fesul 10,000 o'r Boblogaeth (busnesau newydd net a gafodd eu creu)

Pwyntiau Allweddol:.

- Yn 2020, gosodwyd Caerdydd yn seithfed o blith y Dinasoedd Craidd o ran busnesau newydd net a gafodd eu creu (busnesau newydd yn erbyn busnesau a aeth i'r wal), gan ddisgyn ymhell y tu ôl i ddinasoedd cystadleuol allweddol fel Bryste a Manceinion.
- Yn 2020, Caerdydd oedd yr Awdurdod Lleol a berfformiodd orau yng Nghymru o ran y busnesau newydd net a gafodd eu creu.





Ffynhonnell: Demograffeg Busnesau, ONS

13. Nifer yr ymwelwyr â Chaerdydd a'r gwariant/effaith economaidd fesul preswylydd

Pwyntiau Allweddol:

- Gostyngodd nifer yr ymwelwyr â Chaerdydd yn sydyn o 2019 i 2020 oherwydd pandemig Covid-19: yn 2019, derbyniodd Caerdydd dros 21 miliwn o ymwelwyr, o gymharu ag oddeutu 8.25 miliwn yn 2020.
- Mae hyn wedi effeithio ar effaith economaidd ymwelwyr yng Nghaerdydd, gyda'r effaith honno'n gostwng tua 65% o 2019 i 2020.





Ffynhonnell: STEAM

14a. Pa mor fodlon ydych chi ag ansawdd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd?

Pwyntiau Allweddol:

- Yn 2020, nododd bron i 73% o ymatebwyr Arolwg Holi Caerdydd gan Gyngor Caerdydd eu bod naill ai'n fodlon iawn neu'n weddol fodlon ag ansawdd y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd. *[DS. Ni ellir cymharu ffigurau 2020 yn uniongyrchol â'r blynyddoedd cynt gan fod geiriad y cwestiwn wedi newid.]*
- Rhwng 2014 a 2019 arhosodd cyfran yr ymatebwyr a gytunodd fod ansawdd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd yn dda ar y cyfan yn gyson.
- Llwyddwyd i gynnal bodlonrwydd â gwasanaethau cyhoeddi Caerdydd er gwaethaf toriadau sylweddol i'r gyllideb yn ystod y cyfnod hwn. Mae'n debygol y bu modd gwneud hynny drwy fabwysiadu dulliau newydd a mwy effeithlon o weithio, sef integreiddio technoleg ddigidol yn narpariaeth gwasanaeth y Cyngor.





Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd, Cyngor Caerdydd

14b. Pa mor fodlon ydych chi ag ansawdd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd? (yn ôl Pumed Amddifadedd)

Pwyntiau Allweddol:

- Mae bodlonrwydd ag ansawdd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd yn weddol gyson ar draws pumedau amddifadedd, gan adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd da yn hygyrch i bob cymuned ar draws y ddinas.
  [DS. Ni ellir cymharu ffigurau 2020 yn uniongyrchol â'r blynyddoedd cynt gan fod geiriad y cwestiwn wedi newid.]



Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd, Cyngor Caerdydd

15. Canran y bobl sy'n cymryd rhan mewn, neu'n mynd i weithgareddau celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth o leiaf deirgwaith y flwyddyn

Pwyntiau Allweddol:

- Yn 2019-20, roedd Caerdydd ar y blaen yng Nghymru o ran canran ei phreswylwyr a oedd yn cymryd rhan mewn bywyd diwylliannol, gydag 84% yn mynd i dri digwyddiad o leiaf ynn ystod y flwyddyn.
- Mae'r gyfradd hon 13 pwynt canran yn uwch na chyfartaledd Cymru, ond wedi aros bron yr un peth ers 2017-18.
- O ran cymryd rhan mewn o leiaf un gweithgaredd diwylliannol yn y flwyddyn ddiwethaf, ceir 17.4 pwynt canran rhwng y pumed mwyaf a lleiaf amddifadus ym mhoblogaeth Caerdydd, gyda'r pumed lleiaf amddifadus yn llawer mwy tebygol o fynd i weithgaredd diwylliannol.

Canran y bobl sy'n mynychu neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf 3 gwaith y flwyddyn, 2019-20



Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru

% yr Ymatebwyr a fynychodd o leiaf un Gweithgaredd Diwylliannol yn ystod y 12 Mis Diwethaf, 2020



Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd, Cyngor Caerdydd

16. Cyllid a ddyfarnwyd i sefydliadau ac unigolion yn y celfyddydau (2020-2021)



Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau

- Yn 2020-21, roedd Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau, cronfa a gynlluniwyd i sicrhau hygyrchedd mewn dysgu ac i roi creadigrwydd wrth wraidd y cwricwlwm, yn cynnwys 0.4% o gyllid Caerdydd (£116,000)
- Ers 2015, roedd 77.8% o ysgolion yng Nghaerdydd yn rhan o'r cynllun, gan fuddsoddi cyfanswm o £1.3m

Cronfa'r Loteri Genedlaethol

- Arian y Loteri Genedlaethol oedd un rhan o ddeg (£3,579,903) o holl arian Caerdydd
- Roedd Connect and Flourish, cronfa a fwriadwyd ar gyfer datblygu cynigion cydweithredol, yn cyfrif am draean o arian y Loteri (£1.1m)
- Yr ail ffocws mwyaf ar ariannu oedd at ddibenion Strategol (gyda'r nod o fynd i'r afael â bylchau yn y sector)

Cymorth Grant

- Roedd 88% o gyllid Caerdydd (£27.5m) yn Gymorth Grant
- Dyrannwyd tua 40% o Gymorth Grant (£11,010,836) drwy 4 cronfa argyfwng Covid-19
- Dyrannwyd tua 60% (£16,258,990) i sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru
- Dosbarthwyd cyllid Cymorth Grant arall drwy Sharing Together (cyllid sy'n canolbwyntio ar y rhwydwaith), Strategol (gyda'r nod o fynd i'r afael â bylchau yn y sector) a chronfeydd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru.



17. Cyllid Brys Covid-19 a Thueddiadau Presenoldeb y Celfyddydau

Cyllid Brys Covid-19

Ar 30 Gorffennaf 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £53 miliwn ar gyfer Cronfa Adferiad Diwylliannol Covid-19. Clustnodwyd £27.5m o'r gronfa honno i'w dosbarthu gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Aeth £12m o hynny i sefydliadau ac unigolion yng Nghaerdydd.



- Cafodd 77 o unigolion a sefydliadau arian ar gyfer prosiectau yng Nghymru a thu hwnt
- Dosbarthwyd 75% o'r cyllid brys (£9.1m) drwy Gronfa Adferiad Diwylliannol C-19
- At ei gilydd, roedd cyfanswm o 833,546 o bobl wedi mynd i 9,376 o arddangosfeydd, perfformiadau, sesiynau hyfforddi a sesiynau gweithdy
- Dyfarnwyd arian i 27 o weithwyr llawrydd drwy Gronfa Gwytnwch y Celfyddydau i Weithwyr Llawrydd

Presenoldeb a Chyfranogiad

Hyd at 2020, cynyddodd presenoldeb yn y celfyddydau yng Nghanolbarth De Cymru (% yn bresennol unwaith neu fwy bob blwyddyn) o'r naill flwyddyn i'r nesaf (+6.1% o gynnydd mewn presenoldeb rhwng 2016-2019. **Yn 2020, gostyngodd presenoldeb i 77%** (i lawr o 89.1% yn 2019)

Hyd at 2020, cynyddodd cyfranogiad yn y celfyddydau yng Nghanolbarth De Cymru (% yn cymryd rhan unwaith neu fwy bob blwyddyn) o'r naill flwyddyn i'r nesaf (+6.5% rhwng 2016-2019). **Yn 2020, cynyddodd cyfranogiad i 56.7%,** i fyny o 54.5% yn 2019.

18. Canran y bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon dair gwaith neu fwy yr wythnos

Pwyntiau Allweddol:

- Yn 2019/20, roedd Caerdydd yn ail yng Nghymru o ran cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon, gyda 37.8% neu breswylwyr yn cymryd rhan mewn chwaraeon 3 gwaith neu fwy yr wythnos.
- Rhwng 2016-17 a 2019-20, arhosodd Caerdydd yn gyson uwch na chyfartaledd Cymru o ran cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon, gyda'r gyfradd cymryd rhan yn cynyddu o 34.0% i 37.8% dros y cyfnod.
- *[DS. Ni fydd data awdurdod lleol Arolwg Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 ar gael oherwydd y pandemig.]*





Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru

19. Cyfanswm y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd

Pwyntiau Allweddol:

- Am y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2021, roedd cyfanswm o 89,600 o siaradwyr (3 oed neu'n hŷn) yng Nghaerdydd, sy'n cynrychioli 24.8% o'r boblogaeth 3+ oed.
- Cafwyd cynnydd o 34,500 o siaradwyr i'r ffigur hwn, neu tua 63%, ers mis Mehefin 2016; mae cyfanswm canran y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd wedi codi 9 pwynt canran dros yr un cyfnod.
- Fel yn 2016, mae Caerdydd yn dal yn y trydydd safle yng Nghymru o ran cyfanswm y siaradwyr Cymraeg, ar ôl Gwynedd a Sir Gaerfyrddin, ond mae'r bwlch hwn wedi lleihau'n sylweddol a gallai Caerdydd fynd heibio'r naill a'r llall yn y blynyddoedd nesaf.
- I raddau helaeth, gellir priodoli'r cynnydd sylweddol hwn mewn siaradwyr Cymraeg i ymfudiad siaradwyr Cymraeg o ranbarthau eraill yng Nghymru a'r ffaith bod darpariaeth addysg Gymraeg wedi ehangu'n gyflym dros y blynyddoedd diwethaf.

Nifer y Bobl (3 oed a hŷn) sy'n gallu Siarad Cymraeg, Blwyddyn yn dod i ben 30 Mehefin 2021



Nifer y Bobl (3 oed a hŷn) yng Nghaerdydd sy'n gallu Siarad Cymraeg, rhwng 30 Mehefin 2015 a 30 Mehefin 2021



Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth/Llywodraeth Cymru

20. Canran y bobl 16+ oed sy'n gallu siarad Cymraeg

Pwyntiau Allweddol:

- Ar 10%, mae canran y bobl 16+ oed yng Nghaerdydd sy'n gallu siarad Cymraeg yn is na chyfartaledd Cymru o 16%.
- Arhosodd canran y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd yn gymharol sefydlog rhwng 2016-17 a 2019-20, gan godi o 9% i 10% yn ystod y cyfnod hwn.
- Yn nata Llywodraeth Cymru o 2019-20, mae 10% o'r oedolion (16+) yng Nghaerdydd sy'n siarad Cymraeg, ond mae 4% arall yn nodi bod ganddynt rai sgiliau Cymraeg, a fyddai'n cynyddu'r cyfanswm i 14% o breswylwyr Caerdydd sy'n gallu siarad Cymraeg hyd at ryw lefel o leiaf.
  [DS. Ni fydd data awdurdod lleol Arolwg Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 ar gael oherwydd y pandemig.]





DS. Nid yw'r ffigurau ar gyfer Blaenau Gwent, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd na Thorfaen wedi'u cynnwys yn y siart gan fod y data'n ddadlennol neu heb fod yn ddigon cadarn i'w cyhoeddi.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru

21. Canran y bobl sy'n siarad Cymraeg yn ddyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau yn Gymraeg

Pwyntiau Allweddol:

- Yn 2019-20, roedd Caerdydd yn cynnwys un o'r canrannau isaf o siaradwyr Cymraeg dyddiol a chymharol gryf yng Nghymru, sef 5.7%, a oedd yn is na chyfartaledd Cymru o 10.4% a'r lefelau llawer uwch yn y Gogledd a'r Gogledd Orllewin.
- Rhwng 2013-14 a 2019-20, roedd y ganran yn parhau'n gymharol sefydlog.
  [DS. Mae data awdurdod lleol ar gael ar gyfer 2020/21, ond mae data Caerdydd yn ddadlennol, neu heb fod yn ddigon cadarn i'w cyhoeddi.]



DS. Nid yw'r ffigurau ar gyfer sawl awdurdod lleol wedi'u cynnwys yn y siart gan fod eu data'n ddadlennol neu heb fod yn ddigon cadarn i'w cyhoeddi.



DS. Mae ffigurau Caerdydd ar gyfer 2012-13 a 2020-21 yn ddadlennol neu heb fod yn ddigon cadarn i'w cyhoeddi.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru

22. Addysg Gymraeg yng Nghaerdydd

Pwyntiau Allweddol:

- Rhoddwyd lle mewn dosbarth Derbyn i 764 o ddisgyblion mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ar gyfer mis Medi 2020, sef 18.5% o'r cyfanswm a dderbyniwyd, o gymharu â 690 o ddisgyblion, sef 15.9% o'r cyfanswm a dderbyniwyd yn 2015/16.
- Ffigur 2020 sy'n cynrychioli'r nifer uchaf o dderbyniadau i ysgolion cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd.



Ffynhonnell: Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg/Adroddiad Addysg Blynyddol (Cyngor Caerdydd)

23. Canran y bobl sy'n eu hystyried eu hunain yn Gymry

Pwyntiau Allweddol:

- Am y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2021, roedd 55.3% o bobl yng Nghaerdydd yn eu hystyried eu hunain yn Gymry, sy'n llawer is na'r ffigur 88.5% ym Merthyr Tudful.
- Mae cyfradd Caerdydd wedi aros yn gymharol sefydlog ers 2012, ac wedi bod yn gyson is na chyfartaledd Cymru.

Canran y bobl sy'n ystyried eu hunain yn Gymry, y Flwyddyn sy'n dod i ben ar 30 Mehefin 2021



Canran y bobl sy'n ystyried eu hunain yn Gymry, y Flwyddyn sy'n dod i ben ar 30 Mehefin 2012-2021



Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth/Llywodraeth Cymru